

ACTIVE TRAVEL CONSULTATION 2021



Strategic Focus

The Active Travel consultation needs to focus on the coherence of the network rather than simply identifying individual routes. This ensures that resources are targeted at routes likely to produce the greatest shift from car to walking and cycling. The ambition of the Active Travel Act is to increase substantially the number of people who walk and cycle for everyday journeys, particularly those that are for shorter journeys.

During the engagement phase a number of draft strategic priorities were suggested to the public to help inform the final consultation. Whilst there was overwhelming support for the priorities a number of stakeholders felt that the length of the route should be extended and the amount of priorities shortened so there was no confusion as to what is the top priority. The strategic priority suggested below reflect those comments received and is the one that the Local Authority would like to implement. Therefore, for the final stage of the consultation the suggested Active Travel Priority is:

- to develop routes up to 3.0 miles where the key destinations focuses on travel to schools; town centres, key employment sites, bus and train stations

In determining priority routes, other cross cutting factors will be taken into consideration such as the impact on air quality, traffic congestion and safety. Practical considerations such as funding, deliverability, links to the Climate Change agenda, Local Development Plan and other projects / leisure resources will also be taken into account.

YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL 2021



Ffocws Strategol

Mae angen i'r ymgynghoriad ar Deithio Llesol ganolbwyntio ar gydlyniad y rhwydwaith yn hytrach na nodi llwybrau unigol yn unig. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at lwybrau sy'n debygol o greu'r newid mwyaf o ran sicrhau bod pobl yn cerdded a beicio yn hytrach na defnyddio car. Uchelgais y Ddeddf Teithio Llesol yw cynyddu cynaliadwyedd o ran y niferoedd sy'n gwneud teithiau dydd i ddydd ar droed neu ar y beic, yn enwedig teithiau byrrach.

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, cyflwynwyd nifer o flaenoriaethau strategol posib i'r cyhoedd. Gobeithiwyd y byddai'r rhain yn sail i'r ymgynghoriad terfynol. Bu cefnogaeth ysgubol i'r blaenoriaethau, er hyn, roedd nifer o'r rhanddeiliaid yn teimlo y dylid ymestyn hyd y llwybr ac y dylid lleihau'r nifer o flaenoriaethau er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw ddryswch o ran beth oedd y prif flaenoriaeth. Mae'r flaenoriaeth strategol isod yn adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd, ac mae'n flaenoriaeth yr hoffai'r Awdurdod Lleol ei rhoi ar waith. Felly, ar gyfer cam olaf yr ymgynghoriad, y flaenoriaeth sy'n cael ei hawgrymu ar gyfer Teithio Llesol yw:

- datblygu llwybrau sy'n llai na 3.0 milltir sy'n canolbwyntio ar y cyrchfannau allweddol canlynol - ysgolion; canol trefi; safleoedd cyflogaeth allweddol, gorsafoedd bus a gorsafoedd trên.

Wrth ystyried y llwybrau blaenoriaeth uchod, bydd ffactorau trawsbynciol eraill yn cael eu hystyried megis effaith ar ansawdd yr aer, traffig, tagfeydd a diogelwch. Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i faterion ymarferol megis cyllid, danfonadwyedd, cysylltiadau â'r agenda Newid Hinsawdd, y Cynllun Datblygu Lleol a phrosiectau / adnoddau hamdden eraill.